

# Darganfod
# Nannerch



# Croeso i Nannerch



Saif y pentref deniadol hwn, a enillodd nifer o wobrau 'Pentref Taclusaf', chwe milltir i'r gogledd orllewin o'r Wyddgrug yng nghesail Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd. Erbyn hyn mae'r briffordd yn osgoi'r pentref, ond mae'n werth taro heibio i ganfod y cefn gwlad sydd o gwmpas a'r pentref tawel, tlws hwn.

Gall Nannerch olrhain ei hanes at gyfnodau cynhanes. Darganfuwyd arfau o Oes y Cerrig, mae tomennydd claddu Oes yr Efydd yn frith ar ochrau'r bryniau, a daethpwyd o hyd i fwyeill Oes yr Efydd gerllaw. Efallai mai olion cynhanesyddol yw'r cylch cerrig sydd ar dir Penbedw, neu efallai ffoli a godwyd gan y perchennog yn y 18fed ganrif.

Y cofnod cyntaf o bentref Nannerch, yn 1254, yw ffurflen dreth a rhestr o offeiriaid, sy'n awgrymu bod yma eglwys ar yr adeg honno.





**Ysgrifennu ac ymchwil:** Lorna Jenner, Wendi Williams-Shiel a Hazel Formby
**Golygu:** Dee Rivaz a Sarah Brennen
**Dylunio:** Bill Smuts
**Argraffu:** Design and Print 01352 704000
**Hen ffotograffau:** Brian Bennett, Ray Davies, Tony Griffiths, Betty Kent, Elvet Pierce, Cliff Halsall, Pat Wilkes, Beryl Williams, Billy Woodhouse,
**Ffotograffiaeth bywyd gwyllt:** Simon Booth, Mick Brummage, Steve Young
**Ffotograffau eraill:** Jo Danson, Lorna Jenner, Carl Rogers, Ray Bibby

Ceir cyfeiriadau at gymeriadau hanesyddol yn yr ardal; fel Llywelyn Fawr a roddodd Penbedw i'w ferch Gwenllïan, ac Owain Glyndŵr a feddiannodd Penbedw am gyfnod byr yn ystod y gwrthryfel.

Bu'r teuluoedd oedd yn berchnogion Stad Penbedw gyfagos yn ddylanwad mawr ar fywyd y pentref erioed, gan ariannu'r eglwys, yr ysgol, neuadd y pentref a chyflogi nifer o'r bobl leol.

Pentref bychan oedd Nannerch am nifer o flynyddoedd - rhyw ddwsin o dai a wnaed o galchfaen lleol o gwmpas yr eglwys ac ochrau'r Stryd Fawr goediog. Roedd y rhan fwyaf o'r pentrefwyr yn gweithio'n lleol ac ychydig iawn oedd yn teithio ymhell. Dros y blynyddoedd, fe gynyddodd y pentref ac yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf, wrth i'r ffyrdd wella, daeth yr ardal yn hygyrch i bobl oedd yn fodlon gweithio yn nhrefi mawr Lloegr fel Manceinion a Lerpwl. Bu newidiadau mawr yn y pentref dros y canrifoedd ond mae ysbryd y gymuned yn dal yn gadarn a cheir digwyddiadau lleol yn rheolaidd a nifer o glybiau ffyniannus.

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan y gymuned leol i ddathlu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal. Diolch o galon i'r rhai a ddarparodd ffotograffau neu a rannodd eu hatgofion a'u gwybodaeth, ac i Gyngor Cymunedol Nannerch a staff a phlant Ysgol Nannerch.

Gellir llwytho'r llyfryn hwn i lawr o www.cadwynclwyd.co.uk neu www.flintshire.gov.uk/tourism



CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency


Bryniau Clwyd
Clwydian Range


CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Drwy'r oesoedd





***2000 -1000CC***
*Teuluoedd Oes yr Efydd yn dod i fyw yn yr ardal, gan godi Cylch Cerrig a Thomen Gladdu ym Mhenbedw.*



***750BC- 450OC***
*Adeiladu Bryngeyrydd Oes yr Haearn ar Benycloddiau a Moel Arthur cyfagos.*

***1233***
*Llywelyn Fawr yn rhoi Penbedw yn anrheg i'w ferch, Gwenllïan.*

***1254***
*Y cofnodion ysgrifenedig cyntaf at bentref Nannerch a'i eglwys.*




***1400***
*Owain Glyndŵr yn meddiannu Penbedw am gyfnod byr yn ystod ei wrthryfel.*



***1534***
*Adeiladu Wal Goch, un o'r tai hynaf yn y pentref.*

***1554***
*Henry VIII yn rhoi Penbedw i deulu Mostyn.*



***1853***
*Cysegru'r eglwys bresennol.*



***1869***
*Agor rheilffordd yr Wyddgrug i Ddinbych, gyda gorsaf yn Nannerch.*



***1894***
*Cwblhau'r ysgol newydd.*

***1936***
*Dechrau adeiladau Neuadd y Pentref.*




***1958***
*Dymchwel Penbedw.*



***1962***
*Cau lein y rheilffordd.*

Bryniau Clwyd
Clwydian Range

***1985***
*Dynodi bryniau Clwyd yn AHNE.*



***1990au***
*Ymestyn yr ysgol ac agor y meysydd chwarae cymunedol.*




# Pentref stad



Bu Stad Penbedw yn ddylanwad mawr ar bentref Nannerch, ac am nifer o flynyddoedd roedd bywyd y pentref a'r stad ynghlwm wrth ei gilydd. Gadawodd perchnogion olynol eu marc ar y gymuned leol mewn nifer o ffyrdd.

Roedd 30 o lofftydd ym Mlas Penbedw, ac roedd y stad yn 4000 erw. Yn 1778, dywedodd Thomas Pennant ei bod yn 'addurn y dyffryn'. Gwaetha'r modd, roedd y tŷ yn rhy gostus i'w gadw ac fe gafodd ei ddymchwel yn 1958.




Roedd y rhan fwyaf o'r ffermydd lleol, a nifer o dai'r pentref yn perthyn i'r stad. Byddai llawer o'r bobl leol yn gweithio ar y stad a daeth rhai o ardaloedd eraill, gan ddod â chyfenwau newydd i'r ardal. Yn y 18fed ganrif, fe gododd y perchnogion, y teulu Williams, y dafarn 'Cross Foxes', sydd a'r enw'n tarddu o'u harfbais. Cafodd eu bragwr ei gladdu yn y fynwent.

Yn 1852, gwerthwyd Penbedw i beiriannydd y rheilffordd, William Barber Buddicom. Daeth ei deulu'n cymwynaswr mawr i'r pentref gan gefnogi ailadeiladu'r eglwys yn 1853 ac ariannu'r ysgol newydd yn 1894. Adeiladodd y teulu Buddicom nifer o dai newydd gan gynnwys bythynnod Tai Cochion ar y Stryd Fawr a Station Lodge, sydd yn ymyl y gyffordd â ffordd yr Wyddgrug i Ddinbych. Mae'n hawdd iawn eu hadnabod oherwydd y brics nodweddiadol.

Yn 1935, penderfynodd Venetia Buddicom a'i mam godi Neuadd Goffa i'r pentref er cof am dad Venetia, Harry Buddicom, a'i brawd Walter, a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.



*Harry a Walter Buddicom*



*Tai Cochion*



*Croes Goch Penbedw*

Bu'r teulu Buddicom yn ddylanwad mawr ar nifer o agweddau o fywyd y pentref, gan drefnu tripiau i'r plant a darparu man cyfarfod i'r Sgowtiaid ac i'r Ffermwyr Ifanc. Yn 1921, roedd Mrs Buddicom yn un o grŵp o ferched dylanwadol a ffurfiodd Sefydliad y Merched yn Nannerch. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, fe gafodd y Groes Goch ddefnyddio Plas Penbedw.

*August 3rd 1876*

*"A treat was given on Thursday by Mr Buddicom of Penbedw Hall. Good attendance this week owing to the tea party."*

*Nov 8th 1897*

*"A great number of boys absent owing to pheasant shooting at Penbedw."*

Llyfr Cofnodion Ysgol Nannerch

Y peth mwyaf anghyffredin a roddodd y teulu Buddicom i'r pentref oedd tanc o'r Rhyfel Byd Cyntaf oedd wedi cael ei gynllunio'n rhannol gan yr Uwchgapten Harry Buddicom. Ar ôl y rhyfel, cafodd ei gludo mewn trên a'i yrru i ganol y pentref ble roedd tyrfa o blant cyffrous yn ei groesawu. Safodd gyferbyn â'r Swyddfa Bost tan 1938, ac yna cafodd ei dorri'n ddarnau i'w ailddefnyddio yn yr Ail Ryfel Byd.

*Y tanc yn Nannerch*



# Trin y tir



Ffermio fu'r prif ddull o ddefnyddio'r tir erioed. Stad Penbedw oedd perchnogion y rhan fwyaf o'r ffermydd, a'r teuluoedd lleol yn denantiaid iddynt.

Yr adeg honno roedd y tir yn cael ei drin yn uwch i fyny'r mynydd o lawer na heddiw, ac roedd ffermio'n dal yn ddibynnol ar nerth dyn a cheffyl tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Dyma ddarn o lythyr oddi wrth Minnie Edwards (née Peake) at ei brawd yn yr America. Mae'n dangos y cymysgedd nodweddiadol o gnydau ac o anifeiliaid ar y fferm.

*"Our corn looks middling, hay is pretty fair, turnips and potatoes are alright. We are milking 6 cows, 2 of them are heifers and we have 8 weaning calves, 6 horses and sheep - I cannot give you the count but think so far we have done well. At present we only have 2 sows but we have just sold 9 pigs and one is weaning tonight. We don't keep ducks now, they want running after and our legs are not so young as they used to be. We do not get many eggs for we have not many hens, about 30 and we used to have nearly 100. We churn twice a week and get 30-35lbs of butter. I think we shall have a fair amount of fruit this year. Gooseberries are very fine & blackcurrants."*
Firwood Farm, Nannerch, July 4th, 1910



Yn y dyddiau cyn y combein a'r byrnwyr mecanyddol, byddai angen llawer o bobl i gynaeafu gwair ac ŷd. Ymhell i'r ugeinfed ganrif, byddai'r gwair a'r ŷd yn dal i gael ei dorri â phladur. Byddai criw o ddynion yn mynd ati i dorri'r meysydd, y pladurwr arweiniol yn cychwyn drwy wneud dau neu dri o doriadau ac yna byddai'r dyn nesaf yn cychwyn nes byddai'r dynion i gyd wrthi'n pladuro mewn rhes ar draws y maes. Ar ddiwedd pob rhes byddai'r dynion yn cerdded yn ôl i hogi'r pladuron cyn cychwyn yr ail ran. Yn raddol, daeth peiriannau torri gwair i'r ffermydd â cheffyl yn eu tynnu, ond byddai angen pladuro'r tir serth.





Ar ôl ei dorri, gadawyd y gwair i sychu yn y meysydd cyn ei bentyrru â phicweirch i greu tas wair anferth. Byddai'r ysgubau ŷd yn cael eu sychu mewn stacanau bach a'u casglu a'u stacio tan fis Hydref, yna byddai'r peiriant dyrnu symudol yn mynd o'r naill fferm i'r llall ac yn gwahanu'r ŷd oddi wrth y mân us.



Byddai pob fferm yn mynd â'r yd i gael ei falu, naill ai ym Melin Nannerch ym Mhen-y-felin, Melin y Wern ar y briffordd, neu Felin Sarn – melin oedd yn malu cerrig i wneud sment yn ddiweddarach.







# Cyfnod y trenau

Cafodd agor y Rheilffordd rhwng yr Wyddgrug a Dinbych yn 1869, a'r orsaf yn Nannerch, ddylanwad mawr ar y pentref. Er bod Mr Buddicom, Penbedw, yn beiriannydd rheilffyrdd enwog roedd yn danbaid yn erbyn gosod y rheilffordd newydd o fewn golwg i'w dŷ, a bu rhaid ail-gynllunio'r lein.

Erbyn hyn gallai pobl y pentref deithio ymhellach i'w gwaith ac i hamddena, a gellid symud nwyddau yn ôl ac ymlaen yn haws. Roedd y glo a ddaeth ar y rheilffordd yn gallu sefyll yn y seidin nes iddo gael ei gludo o gwmpas y pentref mewn ceffyl a throl.



Roedd yr anifeiliaid hwythau'n cael eu cludo ar y trên drwy gael ei symud o ffald gadarn yn y seidin i wagen arbennig oedd rhaid ei harchebu o flaen llaw. Roedd cywion hefyd yn cael eu cludo ar y trên. Byddai'r ffermwyr yn derbyn neges ffôn oedd yn rhoi gwybod iddyn nhw bod y cywion ar y trên, er mwyn iddyn nhw fod yn yr orsaf i'w casglu. Byddai llefrith o'r ffermydd lleol yn mynd i Lannau Merswy ar y trên.

Daeth nifer fawr o bobl ar y trên o Lannau Merswy ar eu gwyliau ac am ddiwrnod o hamdden. Roedd nifer o fythynnod a chytiau yn cael eu gosod yn dai gwyliau, ac roedd siop grefftau'r felin, caffi Melin Sarn, a'r bwytai lleol yn elwa o'r ymwelwyr hyn. Mae tafarn y Cross Foxes (01352 741 293),a'r Cherry Pie Restaurant (01352 741279) a'r Old Mill B&B (01352 741542) yn dal i groesawu pobl hyd heddiw.





*Yn wreiddiol, tŷ'r Gorsaf Feistr oedd Station Lodge*

Mae gan lawer o bobl atgofion melys am eu plentyndod yn Nannerch, ond cyntefig iawn oedd y cyflwr yn aml iawn.




*"The cottage just had 2 large rooms, one downstairs and one upstairs. Cooking and heating were done with a range and there was no electricity, running water or sewage system. There was a shed attached to the cottage. Just inside the shed door was a recess with a plank of wood across. The plank had a hole in it and a bucket beneath it – this was the toilet!"*

Pat Gore

Yn raddol, wrth i fwy o bobl gael car a'r ffyrdd yn cael ei defnyddio i gario nwyddau, fe aeth y rheilffordd ar i lawr gan gau yn y diwedd. Ar 28 Ebrill 1962, daeth tyrfa o bobl i'r platfform i ffarwelio wrth i'r trên olaf rhwng Caer a Dinbych fynd drwy orsaf Nannerch.

*"My grandparents used to come from Liverpool to spend holidays in Nannerch before the First World War. They loved it so much that they bought Pen-y-mynydd, Bryn Golau, where I live now. They would spend all summer there. My mother recalled how the whole family decamped from Liverpool every April, bringing their luggage on two horse and carts and riding their other three horses! "*

Betty Kent









# Capel ac eglwys

T.H. Wyatt, pensaer o Lundain, a gynlluniodd yr eglwys bresennol. Ef a gynlluniodd eglwysi Gorsedd a Brynford hefyd. Adeiladwyd yr eglwys yn 1852 a'i chysegru i Sant Mihangel yn 1853. Yn ôl y cofnodion, dyma'r drydedd eglwys i fodoli ar y safle hwn yn y pentref. Adeilad syml o blethwaith oedd yr eglwys gyntaf. Cysegrwyd yr ail eglwys i'r Santes Fair, roedd ganddi dŵr pren a grisiau'r tu allan oedd yn arwain i'r oriel ar yr ochr ddeheuol.

Yn y fynwent gwelir nifer o feddau oedd yno cyn yr eglwys bresennol, gan gynnwys rhai cofebion blwch. Y tu mewn, cafodd rhai o'r ffenestri eu hailddefnyddio ac mae yma nifer o gofebion a phlaciau a ddaeth o'r eglwysi cynt. Ymhlith y rhain ceir cofebion i gyn-berchnogion Penbedw. Mae'r gofeb o 1694 yn un drawiadol, sef cofeb Charlotte Mostyn, a briodolir i'r cerfiwr enwog Grinling Gibbons; cofeb i Watkin Williams o Benbedw, Aelod Seneddol lleol o 1777 tan 1806; a chanhwyllyr ysblennydd dau-haen a roddodd Elizabeth Williams i'r eglwys yn 1820. Mae yma nifer o blaciau eraill diweddar i'r Teulu Buddicom, a roddodd y gist gerfiedig goeth a'r cwpwrdd sydd yng nghefn yr eglwys yn rhodd.

Nid oedd yr holl drigolion yn addoli yn Eglwys Nannerch. Erbyn dechrau'r 1800au roedd pregethwyr teithiol yn denu cynulleidfaoedd ac addoli llai ffurfiol yr Anghydffurfwyr




yn ennill tir o fewn y gymuned. I ddechrau, roedd pobl yn cyfarfod i weddïo yn nhai ei gilydd, ond wrth i'w niferoedd gynyddu fe adeiladwyd nifer o gapeli bychain fel Capel Methodistiaid Calfinaidd Pen-y-felin, Capel Cynulleidfaol y Waen, a Chapel y Wesleaid ym Mryn Golau. Dros amser, fe ddirywiodd y cynulleidfaoedd ac erbyn hyn mae'r capeli'n dai preifat. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif roedd y capeli'n ffynnu ac mae pobl leol yn cofio'r adeg pan roedd Capel Pen-y-felin dan ei sang bob dydd Sul, ac oni bai ichi gael sedd erbyn hanner awr wedi pump ar gyfer gwasanaeth chwech o'r gloch, byddai rhaid ichi sefyll am awr a hanner.

Thomas Jones, Bwlch y Crugiau, oedd gweinidog capel Bryn Golau, gŵr oedd yn enwog am gyfansoddi cerddoriaeth. Mae cofeb iddo yng Nghoedpoeth, Wrecsam.



*Cofeb i Charlotte Mostyn*



*Here lyeth the body of Robert Jones, late brewer to Watkin Williams of Penbedw, died April 16th, 1797.*

Beddargraff





Yr Ysgol Gyntaf

# Dyddiau ysgol

Mewn adeilad oedd ynghlwm â'r dafarn roedd yr ysgol gyntaf, ond doedd y cyfleusterau ddim yn ddelfrydol ac yn 1893, cynigiodd Mr Buddicom gynlluniau i adeiladu ysgol newydd. Trawsnewidiwyd yr ysgol wreiddiol yn gartrefi sy'n dal i gael eu galw'n Hen Dai'r Ysgol. Agorodd yr ysgol newydd o frics coch yn 1894, ac roedd ynddi un ystafell fawr wedi'i rhannu'n ystafelloedd llai i'r babanod a gofod mwy i'r dosbarthiadau canol ac uchaf. Cafodd yr ysgol ei hehangu yn 1945 a'i gwella eto yn 1962 ond erbyn y 1990au roedd yn rhy fach i'r pentref oedd yn tyfu ac adeiladwyd estyniad mawr yn 1998.

Yn ddiweddarach, cafodd y meysydd chwarae sydd y tu ôl i'r ysgol eu datblygu i fod yn gyfleuster chwaraeon i'r pentref ac i'r ysgol. Yn fwy diweddar, ychwanegwyd ystafell ddosbarth awyr agored, ardal chwaraeon antur a seddi.

*"Roedd un o'r athrawon, Miss Ada Hughes yn arfer â mynd efo ni am dro i lawr y lôn. Dysgais enwau'r holl flodau ganddi hi.'*
Elvet Pierce,
disgybl yn Ysgol Nannerch1940-47





*"'Dw i'n hoffi neidio o'r ffram ddringo a gwneud campau efo fy ffrind Jack."*
Isaac Barnes
*"Dw i'n hoffi'r ysgol am fod pawb yn gwenu."*
Sadie Spencer
*"Dw i'n hoffi dod i chwarae pêl droed a rygbi ar y cae chwarae efo fy nheulu a fy ffrindiau ar y penwythnos."*
Joe Harrison, disgybl yn Ysgol Nannerch,
Mehefin 2010

# Bywyd pentref



Cyn i nifer fawr o bobl fod yn berchen ar gar, roedd siopau a busnesau'r pentref yn cyflawni anghenion bob dydd y pentrefwyr. Roedd yma Swyddfa'r post a siop fferins yng nghanol y pentref a siop gyffredinol ar y briffordd. Roedd siop Melin Nannerch, ar gyrion y pentref, yn gwasanaethu'r ffermwyr lleol a'r tai cyfagos.




Mae gan breswylwyr hŷn atgofion melys o'r Swyddfa Bost ac o'r teulu Fox oedd yn ei rhedeg.

Roedd efail y gof, oedd i lawr lôn yr ysgol, yn rhan bwysig o fywyd y pentref. Byddai Mr Cartwright, y gof, yn gofannu giatiau gwych o haearn gyr yn ogystal â phedoli'r ceffylau lleol. Byddai'r ffermwyr yn mwynhau llymaid yn nhafarn leol Cross Foxes wrth i'w ceffylau gael eu pedoli.



Yr Hen Swyddfa Bost



Mr Cartwright, y gof

*"For a half-penny we could buy either five aniseed balls or three strips of liquorice. The sweets were displayed in the shop window and on a warm summer's day it was a common sight to see the old cat fast asleep amongst them. This made little difference to us children – in fact we often felt the sweets the cat had been lying on had a better flavour!"*

Y diweddar Gwen Tapley



# Lle i fywyd gwyllt

Saif pentref Nannerch yng nghanol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd, yng nghesail orllewinol Dyffryn yr Afon Chwiler, gyda chopaon crynion Moel Arthur a Penycloddiau y tu uchaf iddo i'r de orllewin. Dynodwyd yn AHNE yn 1985 i gydnabod arbenigedd y diriogaeth yn genedlaethol. Dyma un o wyth yn unig o dirweddau a warchodwyd yng Nghymru, pump AHNE a thri Pharc Cenedlaethol.

Rhuthra'r nentydd i lawr y llethrau serth i ymuno â Dyffryn yr Afon Chwiler. Dychwelodd y dyfrgwn i'r Afon Chwiler yn ddiweddar, sy'n arwydd da fod yr afon yn lân. Oherwydd y pryfed toreithiog yn yr afon a'r nentydd, daw nifer o adar yma. Yr adar cyffredin yw bronwen y dwr, un bychan brown gyda bron wen; a siglen lwyd, aderyn ysgafn â bol melyn ganddo sy'n siglo'i gynffon yn barhaol. Bydd dyfroedd dyfnach y llynnoedd pysgota brithyll yn Wal Goch a Melin Sarn yn ychwanegu at y cynefin dyfrol ac yn lle gwych i'r crëyr fwydo, ac i'r gwtiar a'r iâr ddŵr nythu.



*Siglen lwyd*

Mae'r gwrychoedd trwchus a'r llwyni niferus yn gartref i adar ac anifeiliaid y goedlan. Ffynna'r blodau gwyllt ar ymylon y ffordd a'r caeau gan ddenu gloÿnnod byw a phryfed.



*Y rugiar ddu*



*Cudyll coch*



*Tinwen y garn*

Ar y tir uwch ceir cymysgedd o laswelltir gwyllt a rhostiroedd grug, sy'n gynefin brin yn fyd-eang. Ym mis Gorffennaf, gwelir ffrwythau toreithiog y llus, ac yn Awst try'r bryniau'n lliw porffor godidog pan fo'r grug yn ei flodau. Tyfa'r blodau gwyllt yn frith ar y glaswelltiroedd gan gynnwys teim gwyllt, y blodyn bach melyn hwnnw tresgl y moch, a'r blodyn bach eiddil llysiau Crist sy'n amrywio o las golau i las tywyll.



*Bronwen y dŵr*

Yn yr haf mae'r rhostir yn fyw gan ganu adar wrth i'r ceiliogod ganu i ddenu cymar. Yr adar amlycaf yw tinwen y garn, a welir yn sefyll ar ben carreg neu bostyn; clochdar y cerrig, sydd â galwad fel dwy garreg yn curo yn erbyn ei gilydd; a'r tingoch gyda'r gynffon hir, lliw oren. Mae corhedydd y waun yn gwneud iawn am ei liwiau gwelw drwy ei gân felodaidd a'r arddangosfeydd yn yr awyr.

Mae'r rugiar goch a'r rugiar ddu - aderyn sy'n brin eithriadol - y naill a'r llall yn magu cywion ar y rhostiroedd. Clywir crawc y gigfran yn aml wrth iddi symud eu hadenydd yn araf uwchben. Oherwydd y cwningod, y llygod, a'r adar mân niferus, ceir digon o fwyd i'r adar ysglyfaethus. Adar eraill a welir yn gyffredin yw'r bwncath a'r cudyll coch, a gwelir rhai rhywogaethau prinnach fel y cudyll bach hefyd.

www.clwydianrangeaonb.org.uk



*Iâr fach amryliw*



*Mantell paen*



*Iâr ddŵr*